

Bwrsariaethau Celfyddydau Awyr Agored – Gŵyl Ryngwladol Greenwich & Docklands 2019

Ynglŷn â'r Bwrsariaethau

Mae bwrsariaethau ar gael i artistiaid a sefydliadau celfyddydol o Gymru sydd â diddordeb yn y celfyddydau awyr agored neu sy'n gweithio yn y maes, i weld gwaith newydd, rhwydweithio ac i fynychu sesiynau proffesiynol yn y prif ddigwyddiad celfyddydau awyr agored, Gŵyl Ryngwladol Greenwich & Docklands.

Yn ogystal, mae hyn yn cynnwys y cyfle i gymryd rhan yn Hyb Gŵyl GDIF, a gynhelir gan Outdoor Arts UK, gyda rhaglen lawn o weithgareddau rhwydweithio a datblygiad proffesiynol.

Cynigir y bwrsariaethau ar gyfer y cyfnod o ddydd Gwener 21 i ddydd Sul 23 Mehefin, pan fydd yr Ŵyl yn cael ei lansio, a phan fydd yr Hyb yn weithredol, gydag Articulture yn rhoi croeso anffurfiol i ymgeiswyr bwrsariaeth llwyddiannus yn ystod y penwythnos yng nghanol Greenwich, Llundain.

Nod y bwrsariaethau yw cynorthwyo i greu llwyfan ehangach o rannu, cysylltiadau a phrosiectau cydweithio er mwyn datblygu celfyddydau awyr agored yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau presenoldeb amlwg o Gymru yn y digwyddiad rhyngwladol blaenllaw hwn.

Cefnogir y bwrsariaethau gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol.

Ynglŷn â Gŵyl Ryngwladol Greenwich & Docklands

Gŵyl Ryngwladol Greenwich & Docklands (GDIF) yw prif ŵyl celfyddydau awyr agored rhad ac am ddim Llundain (celfyddyd theatr, dawns, syrcau a stryd). Ochr yn ochr â rhaglen proffil uchel o berfformwyr rhyngwladol ac o'r DU ceir cyfres o ddigwyddiadau gan y diwydiant celfyddydau awyr agored.

Cynhelir Hyb Gŵyl GDIF gan Outdoor Arts UK ac mae'n cynnig rhaglen lawn o gyfleoedd, gan wahodd artistiaid, cyfarwyddwyr gwyliau, rhaglennwyr, cyllidwyr a phob un sydd â diddordeb proffesiynol yn y Celfyddydau Awyr Agored i ddatblygu sgiliau, myfyrion ar waith y sector, a manteisio ar gyfleoedd rhwydweithio rhagorol mewn awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar.

Gwneud cais am Fwrsariaeth

Mae cyfanswm o 3 bwrsariaeth ar gael. Byddant yn cyfrannu at eich costau teithio. Darperir llety syml gydag eraill am 3 noson yn agos at yr ŵyl (dydd Iau 20 – dydd Sadwrn 22 Mehefin). Mae cofrestru ar gyfer yr Ŵyl/Hyb am ddim.

Bydd Articulture yn rhoi croeso anffurfiol i'r grŵp o ymgeiswyr llwyddiannus, ac yn darparu arweiniad drwy gydol y penwythnos.

Nodwch nad oes modd i Articulture gefnogi unrhyw un sydd eisoes wedi derbyn bwrsariaeth gennym yn y gorffennol i fynychu gŵyl ac mae'n rhaid i ymgeiswyr fedru bod yn bresennol am y tri diwrnod cyfan.

Mae'n hawdd ymgeisio – anfonwch e-bost at rosie@articulture-wales.co.uk yn cynnwys –

- Eich enw a'ch cyfeiriad
- Disgrifiad byr iawn o'ch gwaith (ynghyd â'ch CV/gwefan/delweddau pe dymunwch)
- Ychydig o frawddegau yn nodi'r hyn yr ydych yn gobeithio ei 'roi' a'r hyn yr ydych yn dymuno ei 'dderbyn' o'ch bwrsariaeth gŵyl celfyddydau awyr agored

Dyddiad cau i ymgeisio: dydd Gwener, 17 Mai am 5pm. Cysylltwch â Rosie ar 07966071073 os oes gennych unrhyw gwestiynau.